

## 2013 Rhif 827 (Cy. 98)

### TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

#### Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 27, Sir Ddinbych i Gyffordd 31, Sir y Fflint) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013

*Gwnaed* 10 Ebrill 2013

*Yn dod i rym* 15 Ebrill 2013

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o’r gefnffordd oherwydd gwaith sy’n cael ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Ebrill 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 27, Sir Ddinbych i Gyffordd 31, Sir y Fflint) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 15 Ebrill 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A55 rhwng Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy) yn Sir Ddinbych a Chyffordd 31 (Cyfnewidfa Crossways) yn Sir y Fflint a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Gwaharddiadau a Chyfyngiad**

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic o'r fath gael ei reidio, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n 2.5 metr o led neu ragor fynd, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

### **Cymhwyso**

8. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

***R Morgan***

**RICHARD MORGAN**

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
- (2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## **YR ATODLENNI**

### **ATODLEN 1**

#### **Gwahardd cerbydau, beicwyr a cherddwyr dros dro**

Y darn o gerbyttfordd y gefnffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy) at ganolbwynt Cyffordd 31 (Cyfnewidfa Crossways).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy).

Y darn cyfan o ffordd fynediad yr A55 tua'r dwyrain wrth Gyffordd 29 (Cyfnewidfa Pont y Waun).

Y darn cyfan o ffordd fynediad yr A55 tua'r dwyrain wrth Gyffordd 29 (Cyfnewidfa Glan Llyn).

Y darn cyfan o ffordd fynediad yr A55 tua'r dwyrain wrth Gyffordd 30 (Cyffordd Traveller's Inn).

Y darn cyfan o gerbyttfordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 31 (Cyfnewidfa Crossways) at ganolbwynt Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 31 (Cyfnewidfa Crossways).

Y darn cyfan o ffordd fynediad yr A55 tua'r gorllewin wrth Gyffordd 30 (Cyffordd Traveller's Inn).

Y darn cyfan o ffordd fynediad yr A5 tua'r gorllewin wrth Gyffordd Coed Bach.

Y darn cyfan o ffordd fynediad yr A55 tua'r gorllewin wrth Gyffordd 29 (Cyffordd Glan Llyn).

Y darn cyfan o ffordd fynediad yr A55 wrth Gyffordd 28 (Cyfnewidfa Pont y Waun).

Y darn cyfan o ffordd fynediad yr A55 tua'r gorllewin wrth Gyffordd 27a (Cyffordd Pont Dafydd).

## **ATODLEN 2**

### **Terfyn cyflymder 40 mya dros dro a gwaharddiad ar gerbydau sy'n lletach na 2.5 metr**

Y darn o gerbyttffordd y gefnffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 1.6 cilometr i'r gorllewin o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 27 at ganolbwynt Cyffordd 31.

Y darn o gerbyttffordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt 1.6 cilometr i'r dwyrain o drwyniad y ffordd ymadael wrth Gyffordd 31 at ganolbwynt Cyffordd 27.